**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**20 CHWEFROR 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, 20 Chwefror 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke, George Hardcastle, Colin Legg, Mike Reece a David Williams

**YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Prif Swyddogion (Newid Sefydliadol 1 a 2); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid); Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Refeniw, Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Technegol; Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Strategaeth a Systemau; Rheolwr Cyllid; Rheolwr Budd-Daliadau; Rheolwr Asedau Tai; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd; a'r Parch. Maureen Roberts ar gyfer gweddïau

**90. DATGAN CYSYLLTIAD**

Yn dilyn cyngor a roddwyd gan y Prif Swyddog (Llywodraethu), fe wnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 10 ar y Rhaglen 'Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19' ac eitem 11 'Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2018/19 – 2021'

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol fel llywodraethwyr ysgol:

Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Helen Brown, Derek Butler, Geoff Collett, Paul Cunningham, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Veronica Gay, David Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate,

Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Billy Mullin, Hilary McGuill (a merch yn gweithio mewn ysgol yn Sir y Fflint), Mike Peers, Neville Phillips, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Wisinger ac Arnold Woolley

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson gysylltiad personol fel perchennog cwmni bws mini yn darparu cludiant i'r ysgol, a datganodd y Cynghorydd Andy Williams gysylltiad fel perchennog cwmni tacsis yn gweithredu contractau ysgol ac mae ei ferch yn athrawes yn Sir y Fflint.

<u>Eitem 9 ar y Rhaglen - diweddariad ar lafar ar Gynllun Gostyngiad Dewisol Ar Y Dreth 2017/18 a 2018/19</u>

Datganodd y canlynol gysylltiad personol:

Y Cynghorwyr: Mike Allport – Ymddiriedolwyr ac Aelod Pwyllgor Gwaith Sgowtiaid Sir y Fflint; Glyn Banks – Aelod Pwyllgor Canolfannau Cymunedol Ffynnongroyw a Thalacre; Marion Bateman – Pwyllgor rheoli Neuadd Goffa Sychdyn; Sean Bibby, Ron Davies a David Evans – Aelodau Pwyllgor Cymdeithas Gymuned Shotton; Chris Bithell – Ymddiriedolwyr ac Aelod Bwrdd Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig a Chymdeithas Gymunedol Daniel Owen; Helen Brown – pwyllgor rheoli Canolfan Gymunedol Aston Park; Clive Carver – Cadeirydd elusen gofrestredig; Geoff Collett – Cadeirydd Canolfan Gymunedol Daniel Owen; Carol Ellis – Canolfan Gymunedol Hawksbury; Veronica Gay – Gwirfoddolwr canolfan gymunedol; Patrick Heesom – Cyngor Cymuned Mostyn; Kevin Hughes – Cadeirydd pwyllgor rheoli Canolfan Bentref Gwernymynydd; Paul Johnson – roedd ei wraig yn drysorydd Grŵp Sgowtiaid Treffynnon; Tudor Jones – Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Hamdden Treffynnon; Tony Sharps – Band Arian Northop; ac Arnold Woolley – Ymddiriedolwr a Chadeirydd elusennau.

<u>Eitem 12 ar y Rhaglen 'Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai 2018/19'</u>

Datganodd y canlynol gysylltiad personol:

Y Cynghorwyr: Andy Dunbobbin – Tenant garej Cyngor; Hilary McGuill – Aelod Bwrdd NEW Homes; Ted Palmer – tenant Cyngor; Carolyn Thomas – Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Treuddyn; a Martin White – Tenant tŷ Cyngor.

## 91. <u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Soniodd y Cadeirydd yn benodol ar yr hyn mae Sheila Delahoy a Sioned Williams wedi ei gyflawni, a soniodd am Laura Deas o Lanfynydd, a enillodd wobr efydd yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf. Cytunwyd y dylid gwahodd Laura i fynychu cyfarfod y Cyngor Sir er mwyn cydnabod ei llwyddiant yn ffurfiol.

Diolchodd y Cynghorydd Tudor Jones i'r holl staff fu'n ymwneud â'r isetholiad diweddar.

## 92. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 93. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cyflwynwyd cwestiynau gan 12 unigolyn o fewn yr amser cau a ddangosir ar y rhaglen. Gan eu bod yn berthnasol i'w gilydd, roedd ymateb llawn ar y cyd wedi ei baratoi a'i gylchredeg. Gwahoddwyd Jane Bellis a Helen Wall, i holi eu cwestiynau eu hunain gan eu bod yn dymuno gwneud hynny.

"Pam nad yw Cyngor Sir Y Fflint yn gwario lefel llawn yr Asesiad O Wariant Safonol fel mae'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru yn ei wneud - rwy'n credu mai tua 97% sy'n cael ei wario, felly hoffwn wybod i le mae'r 3% arall yn mynd?"

"Yng ngoleuni'r cyfyngiadau cyllidebol cynyddol ar ein hysgolion a'r setliad arian gwastad arfaethedig i ysgolion ar gyfer 2018/19, pam nad yw Cyngor Sir y Fflint yn gwario'r swm a argymhellir o'r Asesiad o Wariant Safonol ar addysg a amlinellir gan Lywodraeth y Cynulliad fel mae'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn ei wneud?"

Fel Aelod Cabinet Addysg, mynegodd y Cynghorydd Ian Roberts ei werthfawrogiad yn y diddordeb a ddangoswyd yn y mater. Wrth grynhoi pwyntiau allweddol yr ymateb, mae'n cyfeirio at ddiffygion yn y broses Asesiad o Wariant Safonol a'r fformiwla gyllido a nododd Sir y Fflint fel un o'r cynghorau sy'n derbyn y lleiaf o arian y pen yng Nghymru. Er y sefyllfa hon, cynhaliwyd cynnydd blynyddol yng nghyllideb ysgolion dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal ag amddiffynfa ychwanegol yn erbyn costau sy'n codi o'r Statws Sengl. Tra gwarchodwyd gwariant ysgolion, gan gynnwys rhai meysydd oedd yn derbyn gwariant uwchben trothwy tybiannol yr Asesiad o Wariant Safonol, roedd y rhan fwyaf o wasanaethau eraill Cronfa'r Cyngor wedi bod yn destun gostyngiadau cyllidol sylweddol. Roedd Sir y Fflint yn parhau i fod yn awdurdod addysg oedd yn perfformio'n dda ac roedd hyn yn flaenoriaeth bwysig, fodd bynnag, roedd yr angen am gyllid atodol yn bryder parhaol.

Byddai copi o'r ymateb llawn yn cael ei gylchredeg i'r holl unigolion oedd wedi cyflwyno cwestiynau, yn ogystal â Phenaethiaid Ysgol.

## 94. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 95. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd dim.

## 96. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd dim.

**97. CYNLLUN GOSTYNGIAD DEWISOL AR Y DRETH AR GYFER 2017/18 A 2018/19**

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ddiweddariad ar lafar ar yr eitem yn codi o’r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd amseriad y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet yn gynharach yn y diwrnod yn golygu y gellid mynd i'r afael â'r effaith ariannol fel rhan o'r eitem cyllid ar y rhaglen hon.

Cylchredwyd copïau o ddatrysiad y Cabinet fel a ganlyn:

(a) Cytuno ar newid ôl-weithredol i fframwaith polisi 2017-18, fel y nodir yn yr adroddiad, i ddarparu Gostyngiad dewisol “ychwanegol” o 20% i bob sefydliad Elusennol sydd eisoes yn derbyn Gostyngiad Gorfodol Ar Y Dreth o 80% sy’n gweithredu o eiddo bach gyda gwerth ardrethol o hyd at £6,000;

(b) Cytuno ar newid ôl-weithredol i fframwaith polisi 2017-18, fel y nodir yn yr adroddiad, i gynyddu Gwobrau dewisol o 20% i bob sefydliad Elusennol a Chymunedol, sydd ar hyn o bryd yn derbyn Gostyngiad Dewisol Ar Y Dreth o 80% ac sy’n gweithredu o eiddo bach gyda gwerth ardrethol o hyd at £6,000; a

(c) Bydd goblygiadau ariannol ar gyfer y newidiadau polisi yn costio £16,200 ar gyfer 2017 – 18 ac oddeutu £18,000 ar gyfer 2018 – 19.

Trafododd y Cynghorydd Aaron Shotton y drafodaeth a chydnabyddiaeth o’r anghysondebau yng nghynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer rhyddhad ardrethi, a dywedodd y byddai'r penderfyniad gan y Cabinet yn galluogi 88 sefydliad i elwa o’r rhyddhad ardrethi 100%.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Richard Jones, dywedodd y Rheolwr Refeniw y byddai'r dyfarniad ôl-weithredol o £16,200 ar gyfer 2017/18 yn cael ei chwrdd drwy ddarpariaeth cyllideb gyfredol a osodwyd o'r neilltu yn bennaf ar gyfer targedu rhyddhad caledi. Byddai pwysau ariannol o oddeutu £18,000 ar gyfer cwrdd y costau ychwanegol ar gyfer 2018/19 yn cael eu hadeiladu i ystyriaethau’r gyllideb sydd ar fin eu trafod.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y swm ychwanegol ar gyfer 2018/19 wedi cynyddu’r bwlch cyllidol arfaethedig i £5.789 miliwn a byddai’n rhaid addasu’r defnydd o gronfeydd wrth gefn eto er mwyn mynd i’r afael â hyn.

Wedi ymholiad gan y Cynghorydd Peers, eglurodd y Rheolwr Refeniw'r cynllun graddol ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach.

Diolchodd y Cynghorydd Sharps i'r Cynghorydd McGuill am godi’r mater ac i Arweinydd y Cyngor a'r Rheolwr Refeniw am ddod i ganlyniad cadarnhaol.

## 98. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2018/19 – CAM TRI A'R CAM OLAF

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ddarparu argymhellion y Cabinet ar gyfer Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2018/19 - Cam Tri a'r Cam Olaf, ac roedd copïau wedi eu cylchredeg.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad ar y cyd oedd yn cynnwys y meysydd canlynol. Cyfrannodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) hefyd:

- Adolygu'r broses gyllido ar gyfer y dyfodol: Pwyllgor y Cyfansoddiad
- Gosod cyllideb gyfreithiol a chytbwys
- Sefyllfaoedd cenedlaethol ar Lywodraeth Leol
- Sefyllfa genedlaethol Llywodraeth Leol
- Drwy arloesi - arbedion effeithlonrwydd o £79 miliwn dros 10 mlynedd
- Pethau mawr rydym wedi eu cyflawni
- Gwytnwch y Cyngor
- Sefyllfa leol
- Cam Un y Gyllideb – cynlluniau busnes portffolio
- Cam Dau'r Gyllideb - cynigion eilradd / corfforaethol
- Cam Tri'r Gyllideb - cau a mantoli'r gyllideb
- Safbwyntiau proffesiynol
- Rhagolwg y dyfodol
- Y Camau Nesaf

Byddai'r mewnbwn gwerthfawr gan yr holl Aelodau drwy gydol y broses gyllido yn parhau fel rhan o ymgynghoriad ar adolygiad o'r broses gyllido yn y dyfodol. Roedd y broses gyllido fesul cam wedi galluogi cynllunio a gweithredu cynigion yn gynnar. Roedd cymryd lefel uwch o risg yn cael ei gydnabod yn nodweddiadol o'r broses o osod cyllideb mewn cyfnod o gyfyngiad ariannol sylweddol. Fel mater heb ei ddatrys, byddai angen i opsiynau ar gyfer cynyddu costau meysydd parcio y mae angen i'r Cabinet eu hystyried gwrdd targed incwm ychwanegol o £0.450 miliwn os bydd y gyllideb yn cael ei chymeradwyo fel y mae ar hyn o bryd. Ar yr achosion a wnaed gan y Cyngor ar lefel genedlaethol, roedd trafodaethau yn parhau â Llywodraeth Cymru ar y ceisiadau am hyblygrwydd lleol ar gostau gofal cartref a chadw cyfran o Ardoll Treth Prentis.

Roedd adolygiad y cronfeydd wrth gefn wedi bod yn drylwyr oherwydd y sefyllfa ariannol a diddordeb y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Roedd canlyniad yr adolygiad, oedd wedi ei gylchredeg, yn manylu ar bob cronfa wrth gefn ac yn nodi bod bron i £2 miliwn o arian wrth gefn, y gellid ei ryddhau er mwyn cynorthwyo i fantoli cyllideb 2018/19. Atgoffwyd y pwyllgor mai dim ond unwaith y gellid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a, phe byddent yn cael eu defnyddio ar gyfer cyllideb 2018/19, y byddai pwysau ariannol o'r un swm i'w gwrdd o 2019/20.

Wrth gynnig yr argymhellion, diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a phawb oedd wedi gweithio ar y gyllideb yng nghyd-destun grant llai gan y llywodraeth a mwy o alw a chostau eraill gwasanaethau. Tra byddai modd cau'r blwch cyllideb yn llwyr drwy gynyddu Treth y Cyngor o 8%, yr argymhelliad gan y Cabinet oedd defnyddio

£1.927 miliwn o gronfeydd a balansau wrth gefn gyda chynnydd o 5% mewn Treth y Cyngor er mwyn mantoli'r gyllideb yn y lle cyntaf. Wrth gydnabod pryderon a godwyd ymysg y gymuned ysgolion, y cyhoedd ac Aelodau, argymhellodd y Cabinet gynnydd pellach yn Nhreth y Cyngor o 1.71% (gan fynd a'r cynnydd i 6.71%) i ddarparu £1.140 miliwn pellach ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Canmolodd y Cynghorydd Shotton y buddsoddiad ychwanegol i liniaru pwysau ariannol yn y maes gofal cymdeithasol, ac ymrwymiad a chefnogaeth y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu drwy gydol y broses. Roedd cydnabyddiaeth eang bod opsiynau gwasanaeth wedi eu harchwilio'n llwyr wedi arwain at her o ran cadw cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd oedd heb eu defnyddio. Roedd adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod bod Sir y Fflint yn Gyngor oedd yn cael ei lywodraethu'n dda yn ariannol. Roedd y drafodaeth gyhoeddus gynyddol yn helpu i godi ymwybyddiaeth o effaith caledi parhaol a maint yr heriau yn y dyfodol.

Cafodd cynnig y Cynghorydd Shotton ei eilio gan y Cynghorydd Attridge a holodd am bleidlais wedi ei chofnodi, ac roedd y nifer angenrheidiol o Aelodau yn gefnogol i hyn.

Siaradodd y Cynghorydd Sharps am gyfrifoldeb Aelodau etholedig i osod cyllideb gytbwys gan gadw at y cyngor proffesiynol a roddir gan Aelodau. Cododd bryderon am y penderfyniadau anodd fydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid, siaradodd y Cynghorydd David Healey o blaid rhoi cymorth ychwanegol i gyllideb ysgolion ac am y gwaith a wnaed i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwarchod gwasanaethau rheng flaen.

Wrth ganmol ymdrechion pawb fu'n rhan o'r broses, cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y gwahaniaeth sydd mewn cyllid a roddwyd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'i gymharu ag awdurdodau lleol, lle'r oedd mwy yn cael ei wneud i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Dywedodd y dylai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gael eu tynnu yn ôl i gyfrif refeniw Cronfa'r Cyngor os na fyddant yn cael eu gwario o fewn yr amserlen a nodwyd ac na fyddai'r cymorth ychwanegol i ysgolion yn bosib heb ryddhau cronfeydd wrth gefn - her a arweiniwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Mewn cydnabyddiaeth o'r risg o bwysau tâl chwyddiannol ar ysgolion, dywedodd ei bod yn briodol defnyddio cyfuniad o £0.900 miliwn o gyllid Buddsoddi i Arbed gan y Cyngor ac £1 miliwn o gronfeydd wrth gefn at raid. Felly cynigodd y diwygiad canlynol a eiliwyd gan y Cynghorydd Peers:

(a) Yn dilyn adolygiad beirniadol, mae £1.927 miliwn o gronfeydd wrth gefn a balansau i'w rhyddhau a'i glustnodi i gyllidebau ysgolion / addysg;

(b) Gosod cynnydd o 6.71% yn Nhreth y Cyngor er mwyn mantoli'r gyllideb ar y cyd â chronfeydd wrth gefn a balans; a

(c) Wedi'r un adolygiad, bod £0.787 miliwn o gronfeydd wrth gefn a balansau yn cael eu rhyddhau i gyfrannu at y broses o fantoli'r gyllideb.

Yn dilyn cynnig cau a gynigiwyd gan y Cynghorydd Attridge, cytunodd y Cadeirydd i seibiant byr er mwyn caniatáu swyddogion i ystyried y canlyniadau.

Unwaith y cafodd y cyfarfod ei ail gychwyn, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, yn ei rôl fel swyddog Adran 151, bod y diwygiad a gynigiwyd yn ormod o risg. Roedd hyn yn seiliedig ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o arian at raid wrth gefn er mwyn gwarchod y Cyngor yn erbyn pwysau ariannol amrywiol sylweddol yn ystod y flwyddyn, fel y cynnydd posib mewn dyfarniad cyflog; lefel goddefiant rheoli'r gyllideb flynyddol; y posibilrwydd o ddiffyg arbedion effeithlonrwydd; Buddsoddi i Arbed ar arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol; a phwysau ariannol na ragwelwyd yn arbennig ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir. Roedd y pwysau ariannol hwn wedi bod yn rhan o'r cyflwyniad a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod rhyddhawyr refeniw blynyddol ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â phwysau ariannol gan gynnwys mewn gofal cymdeithasol. Awgrymodd pe byddai Aelodau o blaid cefnogi argymhellion y Cabinet, byddai'r Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cael diweddariad ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ryddhau unrhyw gyllid pellach. Pe gellid tynnu unrhyw gyllid ychwanegol o'r fath i lawr fel cymhorthdal ar gyfer costau gwasanaeth oedd eisoes wedi eu cwrdd yn y flwyddyn ariannol, yn hytrach nac ar gyfer ychwaneged mewn gwariant gwasanaeth, yna byddai sefyllfa'r Cyngor o ran cronfeydd wrth gefn a balansau yn gwella a byddai peth hyblygrwydd i fynd ymhellach gyda chynnydd mewn cyllid ar gyfer ysgolion yn 2019/20.

Wrth dderbyn yr eglurhad hwn, mynegodd y Cynghorwyr Jones a Peers eu parodrwydd i dynnu'r diwygiad yn ôl ar y sail y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei glustnodi ar gyfer ysgolion. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw daliad unigol fyddai'n dod gan Lywodraeth Cymru ac a fyddai'n gwella sefyllfa alldro'r Cyngor ar gyfer 2018/19 yn caniatáu rhyddhau arian pellach o gronfeydd wrth gefn er mwyn atchwanegu'r fformiwla cyllido ar gyfer ysgolion.

Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd y Cynghorydd Christine Jones pa mor falch oedd hi o'r gwasanaethau a'r timoedd yn ei phortffolio. Roedd yn croesawu'r cynnydd mewn buddsoddiad mewn meysydd allweddol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac amlygodd y cymorth ariannol sylweddol mewn sawl maes gan gynnwys adnoddau gofal ychwanegol, Gwasanaethau Plant ac o ran bodloni dyletswyddau cyfreithiol newydd.

Yn ystod y drafodaeth, croesawodd nifer o'r Aelodau'r cynnydd a wnaed i gyrraedd y cam hwn, ond roeddynt yn cydnabod her y gwaith sydd o'n blaenau ar gyllideb 2019/20.

Fel rhan o'r broses gyllido ar gyfer 2019/20, galwodd y Cynghorydd Peers am fwy o graffu ar feysydd fel rheoli swyddi gwag, costau ffonau symudol a chostau benthyca. Roedd y Cynghorydd Heesom yn teimlo y dylid canolbwyntio mwy ar wariant o fewn portffolios.

Wrth groesawu'r buddsoddiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd y Cynghorydd Ellis y dylai'r Cyngor gynyddu ei achos i Lywodraeth Cymru am fwy o gyllid.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd defnyddio arian cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb hon yn ddatrysiad y gellid ei ddefnyddio dro ar ôl tro. Byddai angen cadw cronfeydd wrth gefn ar lefel darbodus ar gyfer y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr yr argymhelliad ychwanegol i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn yr eitem flaenorol, byddai'r £18,000 ychwanegol i ddarparu'r cynnydd mewn rhyddhad ardrethi ychwanegol dewisol yn cael ei adlewyrchu gan addasiad i'r cronfeydd wrth gefn.

Wrth fynd i bleidlais, cytunwyd yn unfrydol ar yr argymhellion gan y Cabinet, yn ogystal â'r argymhellion ychwanegol a amlinellir uchod, fel a ganlyn:

**O blaid y Cynnig:**
Y Cynghorwyr: Brian Lloyd, Paul Cunningham, Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**PENDERFYNWYD:**

(a) Wedi adolygiad, bod £1.927 miliwn o gronfeydd wrth gefn a balansau yn cael eu rhyddhau i gyfrannu at y broses o fantoli'r gyllideb;

(b) Gosod cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor er mwyn mantoli'r gyllideb ar y cyd â chronfeydd wrth gefn a balansau yn (a) uchod;

(c) Gosod cynnydd pellach o 1.71% yn Nhreth y Cyngor er mwyn darparu ychwaneged o £1.140 miliwn yn benodol ar gyfer cyllidebau ysgolion;

(d) Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf gyda diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol unigol i'w dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ariannol hon, gyda chyngor ar sut gellid defnyddio sefyllfa alldro gwell yn 2018/19 i gynyddu cyllid ysgolion 2019/20 ymhellach eto; a

(e) Nodi fod y pwysau o £18,000 ar gyfer darparu rhyddhad ychwanegol dewisol, fel y cytunwyd gan y Cabinet, i'w adeiladu i'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

## 99. RHAGLEN GYFALAF CRONFA'R CYNGOR 2018/19 - 2020/21

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19 – 2020/21 i'w chymeradwyo. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi cefnogi'r cynigion ac wedi rhoi adborth i'r Cabinet oedd wedi argymell y cynigion heb eu haddasu. Cylchredwyd copïau o ddatrysiad y Cabinet.

Gan gydnabod y gwaith a wnaed ar draws y sefydliad, amlygodd y Cynghorydd Shotton nifer o feysydd allweddol o fuddsoddiad fel gwelliannau ysgolion, adnoddau hamdden a disodli canolfan ofal dydd Glanrafon. Diolchodd i'r Cynghorydd Carolyn Thomas (Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad) a'r Cynghorydd Andrew Morgan (Arweinydd Rhondda Cynon Taf), llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gludiant, am ymwneud â'u trafodaethau i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwelliannau priffyrdd ar draws Cymru.

Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas o blaid nifer o ddyraniadau yn y rhaglen i gefnogi ysgolion a meysydd chwarae, a chyfeiriodd at y meini prawf a ddefnyddir mewn gwahanol ffrydiau ariannu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones yn ei sylwadau at y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Chraffu ar ddeall goblygiadau ariannol y rhaglen ar y cyfrif refeniw yn y dyfodol. Atgoffodd y Prif Weithredwr y cyfarfod o'i ymrwymiad i adrodd am ymateb yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ac i adeiladu hyn i mewn i adrodd yn y dyfodol.

Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, croesawodd y Cynghorydd Christine Jones y buddsoddiad mewn cartrefi gofal ac yn benodol, y broses o ehangu Marleyfield House.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers ar ailddatblygu Theatr Clwyd, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad lle roedd ymrwymiad yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu hwn fel prosiect strategol o bwysigrwydd cenedlaethol, fel roedd wedi ei wneud gyda lleoliadau celfyddydol mewn llefydd eraill.

Gofynnodd y Cynghorydd Brown a oedd yn ddarbodus i'w Cyngor ymrwymo cyllid i gefnogi'r theatr yn ystod y cyfnod hwn o galedi ariannol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn ymarferol i'r Cyngor ei hun ariannu holl waith ail adeiladu'r theatr oedd yn cael ei gwerthfawrogi a'i chefnogi.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais cymeradwywyd argymhellion y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y dyraniadau a chynlluniau yn Nhabl 4 o adroddiad y Cabinet ar gyfer rhannau Statudol / Rheoleiddiol ac Asedau Wrth Gefn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2018/19 - 2020/21 yn cael eu cymeradwyo;

(b) Bod y cynlluniau yn Nhabl 5 adroddiad y Cabinet ar gyfer adran Buddsoddi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2018/19 - 2020/21 yn cael eu cymeradwyo;

(c) Bod y diffyg cyllid ar gyfer cynlluniau ym mlynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21 fel y nodir yn adroddiad y Cabinet yn cael ei nodi Bydd opsiynau gan gynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os oes rhai ar gael), benthyca darbodus neu ail edrych ar gamau cynlluniau yn cael eu hystyried yn ystod 2018/19, a darperir diweddariadau i Aelodau mewn adroddiadau rhaglen gyfalaf yn y dyfodol;

(d) Bod datblygiad pellach ac adnewyddiad y Cynllun Rheoli Asedau a'r Strategaeth Gyfalafol hirdymor yn cael ei nodi;

(e) Y dylid nodi bod y Cabinet yn croesawu cais y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol am adroddiad ar effeithiau refeniw canlyniadol gwariant cyfalaf; ac

(f) Y dylid nodi bod Cabinet yn cytuno i holi Llywodraeth Cymru am gymorth gydag unrhyw gostau sy'n deillio o:

(i) Waith Atgyweirio Pont Sir y Fflint;
(ii) Rhannu cyfrifoldeb yn gynnar o flaen am unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r "Llwybr Coch"; a
(iii) Traul a defnydd ar ffyrdd Sir y Fflint o ganlyniad i draffig wedi ei wyro oherwydd y gwaith ar yr A55.

## 100. CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2018/19 a CHYNLLUN BUSNES 30 MLYNEDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cymunedau a Menter) y cynigion terfynol ar gyfer Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, gan gynnwys y cynnydd arfaethedig mewn rhent a gytunwyd gan y Cabinet. Cylchredwyd copïau o'r argymhellion llawn gan y Cabinet.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Asedau Tai gyflwyniad i gwmpasu'r canlynol:

- Cynllun busnes 30 mlynedd – y Cyfrif Refeniw Tai
- Canlyniadau 2017/18
    - Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
    - Rhaglen adeiladu tai y cyngor
    - Perfformiad
- Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2018/19
- Incwm arall
- Taliadau gwasanaeth 2018/19
- Cynigion arbedion effeithlonrwydd y / pwysau ariannol cost y Cyfrif Refeniw Tai
- Rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai 2018/19

Cynigiwyd argymhellion y Cabinet gan y Cynghorydd Attridge, a eglurodd fod y cynnydd arfaethedig o 3% mewn rhent ar gyfer 2018 / 19 - sy'n is na'r lefel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru – oherwydd gwaith ail fodelu gan y Cyngor i sefydlu lefel mwy fforddiadwy ar gyfer tenantiaid.

Wrth eilio'r cynnig, croesawodd y Cynghorydd Aaron Shotton fuddsoddiad ychwanegol rhaglen adeiladu tai y Cyngor a chyfeiriodd at bryderon am y nifer gynyddol o unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y Credyd Cynhwysol a'r effaith ar ôl-ddyledion rhent.

Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas am bwysigrwydd sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio contractwyr.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter, diolchodd y Cynghorydd Dunbar i'r Prif Swyddog a siaradodd o blaid argymhellion y Cyngor sy'n darparu buddsoddiad pellach yn rhaglen adeiladu tai y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at anghysondeb yn y system gynllunio oedd yn golygu nad oedd rhai datblygwyr yn gwneud y mwyaf o ddarpariaeth tai fforddiadwy. Dywedodd y Cynghorydd Butler bod swyddogion wedi adrodd yr aed i'r afael a'r mater hwn ar draws Cymru. Aeth ymlaen i ddisgrifio rhaglen adeiladu tai y Cyngor fel "balchder Cymru".

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Prif Weithredwr a'i thîm am ailddatblygu'r Fflint a gosod systemau ysgeintio dŵr mewn fflatiau aml lawr. Talodd deyrnged i'r newid mewn diwylliant swyddogion i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion.

Wrth grynhoi, diolchodd y Cynghorydd Attridge i Aelodau am eu sylwadau cadarnhaol a byddai'n gweithredu ar y rheiny ynglŷn â'r defnydd o gontractwyr.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais cymeradwywyd argymhellion y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Busnes fel yr amlinellir yn yr atodiadau;

(b) Cymeradwyo'r opsiwn o osod cynnydd o 3% mewn rhent ar gyfer 2018/19 (yn ogystal â hyd at neu £2 yn llai), gyda rhenti targed yn berthnasol i denantiaethau newydd, fel cynnydd mwy fforddiadwy na fformiwla Polisi rhent Llywodraeth Cymru a fyddai'n gosod cynnydd o 4.5% (yn ogystal â hyd at neu £2 yn llai);

(c) Cymeradwyo cynnydd o £1 yr wythnos mewn rhenti garejys a chynnydd o £0.20 ceiniog yr wythnos mewn rhenti plotiau garejys; a

(d) Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai arfaethedig ar gyfer 2018/19 fel y nodwyd yn Atodiad C.

## 101. DANGOSYDDION DARBODUS 2018/19 I 2020/21

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar Ddangosyddion Darbodus ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21 i'w cymeradwyo. Roedd yr argymhellion wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet, gan nodi newidiadau i'r ffigyrau yn Nhabl 1 fel a ganlyn:

Amcangyfrif o wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor
2018/19 - £23.773 miliwn
2019/20 - £13.659 miliwn

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19 – 2020/21 fel y nodwyd yn Adran 1 yr adroddiad i'r Cabinet; a

(b) Bod Awdurdod Dirprwyedig yn cael ei roi i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i weithredu symudiadau rhwng y cyfyngiadau a gytunwyd ar wahân o fewn y cyfyngiad a awdurdodwyd ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (paragraffau 1.14 – 1.15 o adroddiad y Cabinet).

## 102. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19 i'w gymeradwyo. Roedd yr argymhellion wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19.

## 103. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd dau aelod o'r wasg yn bresennol, a 26 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 5.40pm)

...................................................
**Y Cadeirydd**